Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Cylch Meithrin Gwennog
## Ysgol Gynradd Llanwenog
## Llanwenog
## Llanbedr Pont Steffan
## SA40 9UU

**Dyddiad yr arolygiad: 14-15 Mehefin, 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**
**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Gwennog yn Chwefror 2008 ac fe'i lleolir mewn ystafell yn adeilad Ysgol Gynradd Llanwenog. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal a wasanaethir gan y lleoliad yn ffyniannus nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Mae'r lleoliad yn gweithredu fel aelod o 'Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Sir Ceredigion'. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o 'Mudiad Ysgolion Meithrin'.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod tymor ysgol. Yn ystod yr arolygiad roedd tri phlentyn tair oed yn bresennol. Saesneg yw iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Nid oes plant o gefndiroedd ethnig o fewn y garfan bresennol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cefnogi priodol yn eu lle.

Mae tri aelod o staff. Maent i gyd yn newydd ac wedi cychwyn yn eu swyddi ym Medi 2010. Mae'r lleoliad yng ngofal y prif ymarferydd ac mae yna un ymarferydd arall llawn amser. Maent yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Cyflogir aelod o staff ychwanegol i gynorthwyo gydag un plentyn. Caiff y lleoliad ei reoli gan bwyllgor o wirfoddolwyr. Cafodd y lleoliad ei harolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Tachwedd, 2010. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

**Prif arfarniad**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd cyson;
- mae'r addysgu yn dda ar y cyfan;
- mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae'r awyrgylch yn gynnes a chroesawgar;
- mae'r ymarferwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol;
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr.

## Rhagolygon gwella

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- arweinyddiaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- ymrwymiad y staff i ddatblygiad proffesiynol parhaus;
- y cynllunio da i ddatblygu'r lleoliad ymhellach;
- y cydweithio llwyddiannus iawn gyda'r ysgol gynradd;
- cefnogaeth dda'r rhieni i'r lleoliad.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio'r cynllunio i ymestyn y defnydd o batrymau brawddegau i gryfhau medrau cyfathrebu'r plant;

A2 ddefnyddio'r arsylwadau a wneir ar ddatblygiad y plant i ymestyn eu medrau dysgu yn gynyddol;

A3 ddatblygu gwybodaeth yr ymarferwyr o brosesau a medrau hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn cynhyrchu cynllun gweithredu bydd yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau diddorol a pherthnasol sy'n ennyn diddordeb y plant. Darperir profiadau rheolaidd iddynt arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Caiff y gweithgareddau eu cynllunio'n bwrpasol ar draws y chwe maes dysgu. Rhydd sylw priodol i hybu medrau dysgu'r plant. Cânt eu hymgorffori'r effeithiol yn y themâu a'r profiadau a gynllunnir. Er hyn, nid oes sylw digonol bob amser i sicrhau bod medrau'r plant yn cael eu datblygu'n gynyddol, ac anwastad ar y cyfan yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r plant. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn a'u harwain gan oedolion.

Mae pwyslais cyson ar annog plant i ailgylchu a gofalu am eu hamgylchedd. Dysgant am wyliau Cymru a gwyliau diwylliannau eraill yn effeithiol. Cânt flas o ddathliadau megis Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen, y Flwyddyn

Newydd Tsieineaidd a gŵyl Diwali. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu at ddatblygu ymwybyddiaeth y plant o amrywiaeth ac o'u rôl fel dinasyddion byd-eang.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae trwy ystod o weithgareddau addas. Er hyn, nid oes ffocws digon manwl ar gyflwyno patrymau brawddegol sylfaenol yn rheolaidd.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n dda ar y cyfan. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr am ddatblygiad plant ac maent yn ymwybodol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant mewn gwahanol weithgareddau grŵp bach ac mewn sesiynau llawn. Defnyddiant ganmoliaeth ac anogaeth yn gyson. Maent yn deall pwysigrwydd dysgu trwy chwarae ac yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ymarfer eu medrau. Gwnânt ddefnydd pwrpasol o adnoddau ac offer i gefnogi'r dysgu. Llwyddir i greu amgylchedd dysgu hapus a chynhaliol i'r holl blant.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn gyson. Gwneir arsylwadau perthnasol am gynnydd ac ymateb y plant ar ffurf 'Cofnod Cynnydd'. Er hyn, ni wneir defnydd digon rheolaidd o'r wybodaeth a gesglir i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu, yn enwedig datblygad medrau'r plant.

Caiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu'n gyson am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau ac yn ystod y nosweithiau agored a drefnir. Derbyniant hefyd adroddiad ysgrifenedig addas ar gynnydd eu plant yn y chwe maes dysgu. Yn ogystal, cesglir enghreifftiau o waith pob plentyn mewn llyfryn defnyddiol sy'n cael ei rannu gyda rhieni'r plentyn. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth briodol i'r ysgol gynradd. Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n dda ac yn ymyrryd yn bwrpasol er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn y cymorth angenrheidiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar a threfnus iawn. Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn weithredol. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni/gofalwyr, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n dda. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion. Mae'r oedolion a phlant yn dangos parch y naill at y llall. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da.

Caiff anghenion y plant eu hadnabod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer. Cydweithir yn addas gydag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddiwallu unrhyw anghenion penodol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu.

Mae profiadau dysgu addas yn hyrwyddo datblygiad personol plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Rhydd

pwyslais da ar ddatblygiad personol a chymdeithasol y plant. Anogir plant i ryngweithio gyda'i gilydd ac i fanteisio'n llawn ar y profiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl ddarpariaeth a ddarperir. Llwyddir i greu awyrgylch deuluol lle mae'r plant yn datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth ddigonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau o ansawdd da yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr ardal y tu allan. Cânt eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Er bod yr ystafell yn fach caiff ei defnyddio'n llawn i gynnig ystod o weithgareddau pwrpasol. Mae'r ystafell yn lliwgar gydag arddangosfeydd deniadol sy'n rhoi ffocws i waith plant. Gwneir defnydd rheolaidd o'r ardaloedd allanol sydd yn cael eu rhannu gyda'r ysgol gynradd. Mae'r ardaloedd wedi'u cynllunio a'u trefnu'n effeithiol i ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain mewn ffordd bwrpasol ac effeithiol gan y prif ymarferydd. Mae strwythur clir i'r sesiynau gyda rôl amlwg i bob aelod o staff. Mae polisïau addas, megis amddiffyn plant a sicrhau cyfleoedd cyfartal, yn weithredol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn rhannu gwerthoedd cytûn ynghylch dysgu a datblygiad plant. Mae'r berthynas gyda phlant, y rhieni ar ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol at greu ymdeimlad o gymuned.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn gydwybodol. Mae'r aelodau yn gefnogol iawn ac wedi sefydlu perthynas dda gyda'r ymarferwyr. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd a chedwir cofnodion o'r trafodaethau sy'n sail i gynllunio pellach.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol. Maent yn mynychu cyrsiau addas mewn agweddau ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a datblygiad a gofal plant. Defnyddiant yr hyfforddiant a geir yn effeithiol yn eu gwaith. Mae'r gweithdrefnau i arfarnu eu gwaith ac adnabod eu datblygiad proffesiynol pellach yn datblygu'n briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o gryfderau'r lleoliad a'r agweddau sydd angen gwelliant. Trafodant yn gyson, gan ystyried barn plant, rhieni a gofalwyr, a

phartneriaid eraill. Gwneir gwerthusiadau o’r gweithgareddau a chânt eu nodi’n briodol ar y taflenni cynllunio a’u hystyried ar ddiwedd yr wythnos. Er bod y prosesau arfarnu at ei gilydd yn fwy anffurfiol eu natur, maent wedi arwain at welliannau mewn agweddau ar y ddarpariaeth megis creu llyfrynnau o waith plant i’w rhannu gyda’r rhieni. Gyda chymorth athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, mae’r ymarferwyr wedi cwblhau arfarniad mwy ffurfiol o ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r cynllun gwella sydd wedi deillio o hyn yn cynnwys meysydd addas ar gyfer datblygiad. Mae’r ymarferwyr yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Gwnânt ddefnydd priodol o’r cyfleoedd a ddarperir i gyd weithio a rhannu profiadau gyda lleoliad arall yn yr ardal.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod o bartneriaethau yn cyfrannu’n effeithiol at gyflawniadau a lles plant. Mae perthynas dda gyda’r rhieni/gofalwyr. Cafodd hyn ei gadarnhau yn y sgyrsiau gyda’r rhieni yn ystod yr arolygiad ac yn yr ymatebion i’r holiaduron. Mae cysylltiadau cryf gyda’r ysgol gynradd leol a cheir cydweithio llwyddiannus iawn. Mae’r berthynas waith adeiladol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod addysg a swyddog Mudiad Ysgolion Meithrin yn hyrwyddo datblygiad y lleoliad ymhellach. Defnyddir cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu’r plant trwy ymweliadau megis â’r eglwys leol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd effeithiol o brofiad yr ymarferwyr. Rheolir yr holl adnoddau'n dda. Mae gan y prif ymarferydd ddealltwriaeth glir o’r gyllideb ac mae’r pwyllgor rheoli yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion y lleoliad. Caiff effaith y penderfyniadau ariannol ei asesu gan yr ymarferwyr a’i drafod gan y pwyllgor. Mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd tri o holiaduron rhieni a mynegwyd barnau cadarnhaol iawn am y ddarpariaeth. Teimlant fod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Credant fod eu plant wedi'u paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol gynradd. Dywedant fod y staff yn hawdd sgwrsio â nhw a bod eu plant yn ymgartrefu'n dda. Maent o'r farn bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

### Ymatebion i drafodaethau gyda phlant

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn hapus i sgwrsio am eu hoff weithgareddau ac am eu ffrindiau.

## Atodiad 2

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)